COFNODION CYNGOR CYMUNED RHOSYBOL
Cyfarfod Rhithwith Nos Lun 1af Mawrth 2021 am 7yh.

1. Cyfarfod Rhithwith drwy Galwad Fideo.

2. Presennol
*Huw Edwards, Gwilym Morris, Aled Morris Jones, Wendy Morris Griffiths, Carol Ann Jones, Rhian Hayes*

3. Ymddiheuriadau
*Debra Griffiths*

4. Datgan Diddordeb
*Dim*

5. Darllen a cymeradwyo cofnodion cyfarfod 2il Chwefror 2021.
*AMJ yn cymeradwyo, GM yn eilio*

6. **Materion yn codi**

i) Cae Chwarae Rhosybol
Llythyr gan CSYM – Adolygiad Rhent o 31 Mawrth 2020, codi rhent y cae chwarae i £147.94 pob blwyddyn hyd yr adolygiad nesaf ar 31 Mawrth 2025.
Disgwyl anfoneb gan CSYM am rent 20/21 a 21/22.

ii) Torri Gwair Cae Chwarae Rhosybol
Parhau gyda Mr Rhys Williams am 2021?
*ME i holi os oes newid mewn pris, adio i mis Ebrill*

7. **Gwybodaeth**

a) Llythyr agored gan Gadeirydd Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon (ebost 29/10/21)

b) Sesiynau Hyffroddiant o bell– Un Llais Cymru
Sesiynau ar gael os oes diddordeb.

c) Ffi blynyddol ar gyfer casglu gwastraff gardd gwyrdd
1af Ebrill bydd angen talu ffi blynyddol o £35 am gasglu 26 o weithiau rhwng 01/04/21 a 31/03/22.
www.ynysmon.gov.uk/gwastraff-gardd-gwyrdd
*Aelodau ddim yn cytuno gyda CSYM yn codi y ffi yma*

d) Cynllun Newydd Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru
https://llyw.cymru/cynllun-atal-sbwriel-thipio-anghyfreithlon-i-gymru
Ymghynghoriad hyd at 22 Ebrill 2021

e) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth Ariannol
https://gov.wales/independent-remuneration-panel-wales-annual-report-2021-2022
Gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol 21/22
Tudalennau 40-47 yn berthnasol i cynghorau cymuned

f) Gwahoddiad i Gweminar - Ail Gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru (ebost 01/03/21)

**8. MATERION CYNLLUNIO**

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

Dim

**PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Dim

9. **ADRODDIAD ARIANNOL A BILIAU**

*1)* Archwilio Cymru Ffioedd 2018/19 £278.08 – *cytunwyd i dalu*

10. **Unrhyw Fater Arall**

-Damwain yn Rhosybol 28 Chwefror 2021

*AMJ am holi CSYM os oes unrhyw beth all ei wneud am y llinellau ar hyd y lon, er mwyn lleihau risg yn y dyfodol.*

Cyfarfod Nesaf –12fed Ebrill 2021, gan fod gwyl banc Pasg ar y dydd llun cyntaf.